**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020**

Pwyntiau Craffu Technegol 1 a 2:

Er na wneir darpariaeth ddatganedig bod rhaid i hysbysiad o dan reoliad 14(2) gael ei roi *i'r aelod*, rydym o'r farn y cesglir bod rhaid i hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 14(2) gael ei roi i'r aelod, wrth ystyried y rheoliad hwnnw ochr yn ochr â geiriad rheoliad 14(3) (oherwydd dyna'r hyn sy'n ofynnol er mwyn atal dros dro aelod o dan reoliad 14(3)).

Rydym yn cydnabod bod y cyfeiriad yn rheoliad 14(5) at baragraff (1) yn anghywir a byddwn yn cywiro hyn drwy gyfrwng slip cywiro.

Pwyntiau Craffu ar Rinweddau 1, 2 a 3: *Ymateb*

Mae rhestru'r diffiniadau yn nhrefn yr wyddor yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau hyn yn gyson ag arfer Llywodraeth Cymru yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i ystyried hyn at y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Offerynnau Statudol a osodir yn ddwyieithog yn y Senedd. Fodd bynnag, ni osodir y dogfennau hyn yn ddwyieithog yn awtomatig ar hyn o bryd. Er ein bod yn gosod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn ddwyieithog, rydym hefyd yn gorfod blaenoriaethu ein hadnodd cyfieithu cyfyngedig mewn modd llym iawn ar hyn o bryd, gan roi'r flaenoriaeth uchaf i ddeddfwriaeth a chanllawiau i'r cyhoedd sy'n ymwneud â Covid a Brexit. Mae'r pandemig a Brexit wedi cyfrannu'n sylweddol at y pwysau digyffelyb ar ein hadnoddau cyfieithu.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen gael ei gosod yn ddwyieithog pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, ac mae Safon 47 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried y pwnc penodol a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer dogfennau penodol wrth flaenoriaethu eu cyfieithu. Gan ddilyn canllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, fe wnaethom ystyried materion megis a oedd y Rheoliadau yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg yn uniongyrchol, a oedd y Rheoliadau o ddiddordeb mawr i grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn benodol, ac a fyddai cyfran uchel o'r gynulleidfa ar gyfer y dogfennau yn siarad Cymraeg. Am fod y Rheoliadau hyn yn weithdrefnol eu natur, gan wneud darpariaethau ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac nad oes iddynt effaith uniongyrchol ar y cyhoedd, nid ystyriwyd eu bod yn flaenoriaeth i'n Gwasanaeth Cyfieithu sydd o dan bwysau ar yr adeg hon.

Rydym yn cydnabod y byddai o gymorth pe bai'r cyfeiriad cyflawn at Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 2004 yn cael ei ddefnyddio yn y troednodyn a chaiff ei gywiro drwy gyfrwng slip cywiro.